**P-05-1003 Mynnu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol nawr ynghylch gwaredu mwd wedi'i halogi'n radiolegol yn nyfroedd Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cian Ciaran, ar ôl casglu cyfanswm o 10,692 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rydym ni, sy'n llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mewn perthynas ac ansicrwydd, a sicrhau bod Asesiad llawn o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gynnal cyn bod modd gwaredu unrhyw waddod pellach o orsaf pŵer niwclear Hinkley Point yn Cardiff Grounds.

Peidiwch â gadael i Lywodraeth Cymru dorri ei chyfraith ei hun!

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Rhaid i'r asesiad o'r effaith amgylcheddol ddarparu

Data sylfaenol manwl am ymddygiad a thynged deunydd sy'n cael ei waredu yn Cardiff Grounds;

Dadansoddiad radiolegol llawn, gan gynnwys allyrru gronynnau alffa;

Asesiad manwl a chyfoes o effeithiau radiolegol posibl ar boblogaeth de Cymru;

Rheoli llygryddon niwclear ar y tir yn hytrach na'u gwasgaru ar y môr;

Parchu cytundebau ynghylch gwaredu morol;

Gwarchod Afon Hafren.

Rydym hefyd yn galw ar y Senedd nad oes buddiannau niwclear yn dylanwadu ar yr Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol.

**Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru